# Gall goleuo croen fod yn boen



Mae pobl yn defnyddio cynhyrchion goleuo croen am resymau cymdeithasol a phersonol cymhleth.

**Mae llawer o'r cynhyrchion hyn yn anghyfreithlon yn y DU a chanfuwyd eu bod yn cynnwys sylweddau niweidiol.**

Nid yw eli croen anghyfreithlon wedi cael prawf diogelwch.

Nid oes unrhyw sicrwydd caiff eu creu mewn amodau glanweithiol, ac nid oes unrhyw sicrwydd eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

**Gall hufenau goleuo croen anghyfreithlon achosi cyflyrau fel acne ac ecsema. Gallant hefyd arwain at anffurfiad parhaol a phroblemau iechyd hirdymor difrifol.**



**Mae rhai hufenau goleuo'r croen yn gyfreithlon, ond mae llawer wedi'u gwahardd oherwydd eu cynhwysion niweidiol.**

**Mae'r cynhwysion gwaharddedig peryglus hyn yn cynnwys hydroquinone, mercwri a meddyginiaethau trwyddedig fel corticosteroidau.**

**Mae hufenau sy'n cynnwys y sylweddau hyn yn anghyfreithlon yn y DU ac Ewrop am resymau diogelwch.**

**Canfuwyd bod hufenau goleuo'r croen sy'n cael eu gwerthu'n anghyfreithlon yn y DU yn cynnwys dwywaith cymaint o gynhwysion steroid gweithredol a ganiateir mewn cynhyrchion presgripsiwn.**

**Dim ond achos bod rhywbeth ar werth, nid yw'n golygu ei fod yn ddiogel.**

**Peidiwch byth â defnyddio**
**cyAdnabod beth rydych chi'n prynu**

ctsi
C Trading Standards Institute

A a b dae , e c :
**www.tradingstandards.uk/cosmetics**